

## **Cytundeb Rhannu Data - Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor**

### **1. Cyflwyniad**

Mae'r cytundeb hwn yn llywodraethu trosglwyddiad a darpariaeth gwybodaeth bersonol gan Brifysgol Bangor (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y brifysgol") i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "yr undeb") a'r dibenion y gall yr undeb ddefnyddio'r wybodaeth honno iddynt.

Mae'r cytundeb hwn wedi cael ei ddiweddarau yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GPDR) a Deddf Diogelu Data 2018 a ddaeth i rym yn y Deyrnas Unedig ym mis Mai 2018. Bydd rhannu data rhwng Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn cydymffurfio â phob hawl unigol a warentir yn y rheoliadau newydd.

### **2. Defnyddio Gwybodaeth**

Bydd yr undeb yn defnyddio'r wybodaeth hon at y dibenion canlynol yn unig (ac eithrio unrhyw resymau brys ychwanegol a gytunir arnynt gyda Phennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio'r brifysgol):

- Gweinyddiad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor a'i ymwneud â'r myfyrwyr yn gyffredinol (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: Clybiau Chwaraeon, Cymdeithasau, Gwirfoddoli Myfyrwyr, UMCB, Cynrychiolaeth Myfyrwyr a Llais Myfyrwyr)
- Rheoli aelodaeth yr undeb, a gweinyddiad yr aelodaeth gan gynnwys rheoli'r broses ddemocrataidd o ethol cynrychiolwyr yr undeb
- Gwasanaethau a ddarperir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor ac er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol â'i aelodau
- Cefnogi'r brifysgol i gasglu data a gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) a Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (GCB)
- Casglu adborth yn uniongyrchol gan ei aelodau a llunio adroddiadau demograffig ar ymroddiad myfyrwyr
- Gweinyddu arolygon ymysg aelodau Undeb Myfyrwyr Bangor a recriwtio aelodau ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil (e.e. grwpiau ffocws)
- Gweinyddu ffeiliau achos myfyrwyr
- Cyfeirio gwybodaeth yn ôl i'r brifysgol i'w ddefnyddio i adrodd ar ddadansoddeg myfyrwyr a rheoli etholiadau ac ymroddiad Cynrychiolwyr Cwrs
- Cyfeirio gwybodaeth yn ôl i'r brifysgol i'w defnyddio gan Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni Prifysgol Bangor yn eu gwaith yn cysylltu â chyn-fyfyrwyr Bangor

Gwybodaeth bellach sydd i'w rhannu

- Gellir hefyd rhannu data personol rhwng y partïon lle bo angen a'i bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau'r brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cynnal, ac i ymchwilio'n llawn i unrhyw achos honedig o dorri'r polisiâu a'r gweithdrefnau hynny a chymryd unrhyw gamau pellach angenrheidiol. Yn benodol, rhoddir sylw dyledus i'r Rheoliad Disgyblu Myfyrwyr a'r rheolau ymddygiad a amlinellir ynddo.
- Yn achos categori arbennig o ddata personol, yn benodol comisiynu neu honiad o gomisiynu trosedd, rhoddir ystyriaeth i p'un a oes angen rhannu'r data er mwyn i'r brifysgol asesu'n brydlon a yw'r myfyriwr yn cwrdd ag unrhyw safonau addasrwydd i ymarfer sy'n ofynnol gan y rhaglen y mae wedi ymrestru arni, neu i asesu'r risg mae'r unigolyn yn ei beri i fyfyrwyr/staff yn ehangach.

### 3. Darparu Gwybodaeth

Caiff gwybodaeth am fyfyrwyr ei darparu trwy drosglwyddiad electronig diogel. Bydd y trosglwyddiad yn sicrhau bod yr undeb (mewn cydweithrediad â'r cyflenwr system aelodaeth o ddewis yr undeb) yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn sicrhau bod manylion unrhyw fyfyrwr sy'n tynnu allan o'r cytundeb rhannu data yn cael eu gwaredu yn unol â'r broses y cytunwyd arni

Myfyrwyr Newydd - Bydd y brifysgol yn rhoi manylion am bob myfyriwr, ar bob lefel rhaglen, sydd i ddechrau astudio yn y brifysgol i Undeb y Myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd

Myfyrwyr Presennol - Dim ond mewn amgylchiadau penodol fel yr amlinellir uchod y gall yr undeb rannu gwybodaeth am fyfyrwyr presennol â'r brifysgol, a'r brifysgol â'r undeb. Gwneir unrhyw benderfyniadau i rannu gwybodaeth am fyfyrwyr presennol yn dilyn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr (yn achos Undeb y Myfyrwyr) a'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (yn achos y brifysgol).

Rhai sy'n gadael yn barhaol - Ar ddechrau mis Mai a dechrau mis Hydref bydd y brifysgol yn rhoi rhifau cofrestru'r myfyrwyr hynny y disgwylir iddynt raddio i Undeb y Myfyrwyr, ynghyd â rhifau cofrestru myfyrwyr sydd wedi gadael y brifysgol yn barhaol ers y diweddariad diwethaf.

Cywirdeb Data - Caiff unrhyw newidiadau i'r data a rennir am fyfyrwyr eu diweddarau yn y trosglwyddiad dyddiol o wybodaeth rhwng y brifysgol a'r undeb

Caiff y data a ddarperir gan y brifysgol eu hystyried fel y cofnod diweddaraf a chyfredol o statws myfyrwyr a'u cymhwysedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau Undeb y Myfyrwyr (e.e. Etholiadau, Aelodaeth Clybiau a Chymdeithasau)

### 4. Dosbarthiadau Gwybodaeth

Bydd y brifysgol yn darparu'r wybodaeth a ganlyn am fyfyrwyr i Undeb y Myfyrwyr:

- Rhif myfyriwr (rhif 500)
- Enw defnyddiwr

- Enw llawn
- Adran
- Rhaglen a rhan
- Dyddiad gadael disgwylidig
- Lefel rhaglen
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Cenedligrwydd
- Cyfeiriad cartref
- Cyfeiriad yn ystod y tymor
- Cyfeiriad e-bost prifysgol
- Cyfeiriad e-bost cartref
- Rhif ffôn symudol
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Dewis iaith

## 5. Amodau ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol am fyfyrwyr

O ran defnyddio gwybodaeth bersonol am fyfyrwyr, bydd Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn sicrhau'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Data Prifysgol Bangor;
- Cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 (ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol a gaiff ei phasio) yn gyffredinol, ac yn benodol;
  - Bydd aelodau staff a Swyddogion Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol am fyfyrwyr yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu data priodol cyn i unrhyw aelod staff / swyddog brosesu gwybodaeth;
  - Bydd gan unrhyw brosesydd data a ddefnyddir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor bolisiau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018.

## 6. Cyfyngiadau ar ddefnyddio gwybodaeth am fyfyrwyr

Ni chaiff y wybodaeth a ddarperir gan y brifysgol i'r undeb, ac fel arall, ei throsglwyddo i unrhyw drydydd parti, heb ganiatâd penodol yr unigolyn/ion dan sylw, ac eithrio o dan yr amodau canlynol:

- Pan fo'r undeb wedi cael caniatâd penodol gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ar ran y brifysgol.
- Pan fo'r wybodaeth yn cael ei rhyddhau i'r cyflenwr system aelodaeth o ddewis yr undeb sy'n gweithredu a gwe-letya gwefan yr undeb. Bydd yr undeb yn sicrhau bod y cyflenwr system aelodaeth o ddewis yr undeb yn rhwym i gontract fel a ganlyn:
  - Wedi'i wahardd rhag defnyddio'r data at unrhyw ddiben arall.
  - Yn rhwym i gydymffurfio ag amodau'r cytundeb hwn.
  - Yn rhwym i ddinistrio'r data pe bai'r contract yn cael ei derfynu am unrhyw reswm.

- Ni chaiff y wybodaeth a ddarperir gan y brifysgol i'r undeb, heb gydsyniad penodol yr unigolyn dan sylw, ei defnyddio at ddiben gwasanaethau marchnata a ddarperir gan sefydliadau neu unigolion ac eithrio'r undeb neu'r brifysgol.

O ran defnyddio cyfeiriadau e-bost personol myfyrwyr a chyfeiriadau e-bost prifysgol at ddibenion marchnata, bydd yr undeb yn sicrhau'r canlynol:

- Bod adran Gwasanaethau TG y brifysgol yn cael rhybudd priodol am e-byst torfol.
- Bod Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y brifysgol yn derbyn copi o bob e-bost a anfonir at fyfyrwyr [ac eithrio rhai o natur bersonol] i alluogi'r brifysgol i fonitro'r cynnwys.
- Y caiff myfyrwyr yr opsiwn ym mhob e-bost i beidio â derbyn gohebiaeth yn y dyfodol.

O ran defnyddio cyfeiriadau post myfyrwyr (cartref, tymor neu fel arall) at ddibenion marchnata, bydd yr undeb yn sicrhau'r canlynol:

- Bod Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y brifysgol yn derbyn copi o gynnwys pob gohebiaeth a anfonir at fyfyrwyr [ac eithrio gohebiaeth o natur bersonol] i alluogi'r brifysgol i fonitro'r cynnwys.
- Bod y wybodaeth a anfonir at fyfyrwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol yr undeb neu â chynnyrch a gwasanaethau a ddarperir gan yr undeb sydd o wir fudd i fyfyrwyr.
- Ni chaiff gwybodaeth ei hanfon at fyfyrwyr i farchnata cynnyrch na gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu unigolion ac eithrio'r undeb. Ni fydd hyn yn rhwystro'r undeb rhag cynnwys deunydd hysbysebu neu nawdd gan drydydd parti gyda gohebiaeth a anfonir yn bennaf at ddiben hyrwyddo gwasanaethau'r undeb.
- Y rhoddir yr opsiwn i fyfyrwyr ym mhob e-bost i beidio â derbyn gohebiaeth yn y dyfodol.

Bydd yr undeb yn sicrhau bod manylion cyswllt mewn argyfwng yn cael eu defnyddio'n unig mewn achos o argyfwng.

Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn darparu data perthnasol i'r brifysgol, at ddibenion eu defnyddio yn yr Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR), Gwobr Cyflogadwyedd Bangor (GCB) a phrojectau dadansoddeg ar draws y brifysgol, yn achos y meysydd canlynol:

- Aelodaeth weithredol o Glybiau / Cymdeithasau neu Grwpiau Gwirfoddoli
- Aelodau Pwyllgor Clybiau neu Gymdeithasau
- Arweinwyr ac Aelodau Pwyllgor Projectau Gwirfoddoli
- Cynrychiolwyr Cwrs ac Arweinwyr Myfyrwyr Etholedig
- Ymwneud democrataidd (yn cynnwys Etholiadau a Refferenda a phresenoldeb mewn Cyfarfodydd Cyffredinol)
- Hyfforddiant a dysgu allgyrsiol yr ymgymerir ag ef, yn ymwneud â'r gweithgareddau uchod

Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, at ddibenion defnydd Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni Prifysgol Bangor, yn darparu manylion am bob myfyriwr sy'n cymryd rhan mewn Grwpiau Cyfleoedd Myfyrwyr (ac eithrio'r rheiny sydd wedi gwneud cais i gael cadw eu gwybodaeth yn gyfrinachol).

Gwneir eithriad o'r ddarpariaeth o ddata perthnasol ar gyfer y gweithgareddau uchod yn achos unrhyw ddata categori arbennig, ond gall myfyrwyr mewn achosion o'r fath wneud cais am gynnwys data o'r fath neu gall Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr / y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio farnu mewn amgylchiadau eithriadol bod darparu data o'r fath yn gymesur ac yn berthnasol.

### **Hawliau myfyrwyr i dynnu allan**

Yn ogystal â'r cyfle i fyfyrwyr arfer hawliau i dynnu allan fel y manylir uchod bydd y trefnau tynnu allan canlynol mewn grym:

- Gall unrhyw fyfyrwr sy'n gwrthwynebu i'w data gael eu rhannu ag Undeb y Myfyrwyr yn unol â'r Cytundeb Rhannu Data hwn hysbysu'r brifysgol o hynny trwy borth FyMangor. Unwaith ceir rhybudd o hyn caiff data'r myfyriwr ei waredu o'r ffrwd ddata fyw. (Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol y gallai hynny gyfyngu ar eu mynediad i wasanaethau a gweithgareddau'r undeb).
- Pan fo myfyriwr wedi tynnu allan yn dilyn trosglwyddiad cychwynnol o ddata y cawsant eu cynnwys ynddo bydd Undeb y Myfyrwyr (a'r cyflenwr system aelodaeth o ddewis yr undeb) yn sicrhau bod unrhyw ddata a ddarparwyd gan y brifysgol ac sy'n ymwneud â'r myfyriwr hwnnw yn cael eu dinistrio'n ddiogel heb oedi. Caiff y myfyriwr hefyd y cyfle i ddewis peidio â bod yn aelod o'r undeb trwy ddilyn [Is-ddeddf 8 yr Undeb - Dewis peidio â bod yn aelod](#)

### **Adolygu a chyhoeddi**

Caiff y cytundeb hwn ei adolygu'n flynyddol a chaiff ei gyflwyno i'r Grŵp Tasg Cydymffurfio i'w gymeradwyo. Cytunir ar newidiadau rhwng Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr a'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio cyn y cyfarfod hwnnw.

Caiff y cytundeb hwn ei gyhoeddi ar wefannau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor a Phrifysgol Bangor.

Llofnodwyd y cytundeb hwn ar ran Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan:



Ar y dyddiad hwn: 24ain o Hydref 2019

Llofnodwyd y cytundeb hwn ar ran Prifysgol Bangor, gan:



Ar y dyddiad hwn: 24ain o Hydref 2019